

Ffurflen hunanwerthuso darparwyr ar gyfer arferion diogelu ac amddiffyn plant

Ysgol / UCD: Ysgol Mornant

Awdurdod Lleol (ar gyfer ysgolion a gynhelir / UCD): Sir y Fflint

Perchennog (ar gyfer ysgolion annibynnol):

Sylwer: Gallai darparwyr ddewis cwblhau'r hunanwerthusiad hwn, defnyddio ffurflen wedi'i chymeradwyo gan yr awdurdod lleol neu'r ffurflen sydd wedi'i chynnwys yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

Dylai'r pennaeth / prifathro / athro sydd â gofal drefnu bod ymatebion yn cael eu darparu i'r cwestiynau canlynol. Bydd arolygwyr yn trafod y wybodaeth a ddarparwyd gyda staff perthnasol yn ystod yr arolygiad. Bydd fersiwn electronig y ffurflen yn ehangu i gymryd testun yr ymatebion. Mae lle ychwanegol ar dudalen olaf y ffurflen ar gyfer mwy o wybodaeth. **Rhaid** i'r ffurflen hon gael ei llofnodi a'i dyddio gan yr unigolyn sy'n ei llenwi, y pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr.

Sut ydych chi'n sicrhau diwylliant diogelu cryf yn eich ysgol / UCD?

Mae Ysgol Mornant yn meithrin amgylchedd gofalggar a chynhwysol lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hyderus i rannu unrhyw bryderon. Mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â dysgwyr a'u teuluoedd i gefnogi diogelwch a llesiant dysgwyr. Mae staff yn deall ei gyfrifoldebau diogelu ac yn derbyn hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd i sicrhau bod ei wybodaeth a'i arferion yn gyfredol.

Mae diogelu wedi'u hintegreiddio'n effeithiol o fewn y cwricwlwm ac ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i gadw eu hunain a phobl eraill yn ddiogel drwy weithgareddau sy'n hyrwyddo perthnasoedd iach, diogelwch ar-lein, gwrth-fwlio, parch at eraill a gwneud dewisiadau cadarnhaol. Mae'r ysgol yn gweithio'n rheolaidd gyda phartneriaid allanol, gan gynnwys Swyddog Cyswllt yr Heddlu ag Ysgolion, a Pentre Peryglon, i atgyfnerthu negeseuon allweddol a chodi ymwybyddiaeth o risgiau perthnasol.

Mae gan yr ysgol drefniadau clir ar gyfer cofnodi, monitro ac ymateb i bryderon diogelu. Caiff pob pryder amddiffyn plant ei gofnodi ar CPOMS a gweithredir arno yn unol â gweithdrefnau'r ysgol. Mae perthnasoedd cryf â rhieni a gofalwyr yn helpu'r ysgol i nodi pryderon yn gynnar a darparu cymorth amserol. Mae arweinwyr a staff yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt, gan sicrhau bod dysgwyr a theuluoedd yn gwybod ble i gael cymorth neu gyngor pan fo angen.

O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn gwybod at bwy i droi am gymorth ac yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando ac yn gweithredu'n briodol.

Sut ydych chi'n datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth dysgwyr o sut i fod yn ddiogel, gan gynnwys ar-lein a pheryglon radicaleiddio ac eithafiaeth mewn gwersi trwy'r cwricwlwm a'r cymorth bugeiliol?

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diogelwch fel rhan annatod o'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth fugeiliol. Mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o ddiogelwch personol, perthnasoedd iach, diogelwch ar-lein, gwrth-fwllo a llesiant emosiynol drwy gyfleoedd dysgu cynlluniedig a gweithgareddau ehangach yr ysgol. Caiff y negeseuon hyn eu hatgyfnerthu'n rheolaidd drwy wasanaethau, trafodaethau dosbarth a gweithgareddau sy'n briodol i oedran y dysgwyr.

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch ar-lein. Drwy'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, mae dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen arnynt i ddefnyddio technoleg yn ddiogel ac yn gyfrifol. Maent yn dysgu sut i adnabod risgiau ar-lein, sut i ddiogelu eu gwybodaeth personol a sut i geisio cymorth pan fo angen. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni i atgyfnerthu negeseuon diogelwch ar-lein ac i ymateb i unrhyw bryderon sy'n codi.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid allanol i gryfhau dealltwriaeth dysgwyr o faterion diogelu cyfoes. Mae staff wedi'u hyfforddi mewn diogelu a Prevent ac yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth a radicaleiddio. Mae hyn yn eu galluogi i adnabod pryderon yn gynnar ac ymateb yn briodol. Lle bo angen, darperir cymorth bugeiliol ychwanegol i ddysgwyr unigol.

Mae adnoddau a phrofiadau dysgu'n cael eu dewis yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i oedran, cam datblygu ac anghenion y dysgwyr. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau partner i gefnogi diogelwch, llesiant a gwydnwch dysgwyr.

O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel. Maent yn gwybod at bwy i droi am gymorth, yn deall sut i ymateb i risgiau ar-lein ac yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i wneud penderfyniadau diogel a chyfrifol.

Tystiolaeth ategol yn cynnwys:

- Polisi Diogelu'r Ysgol
- Polisi Perthnasoedd a Rhywioldeb (RSE)
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Ymddygiad

Sut ydych chi'n nodi ac yn rhoi gwybod am achosion o gam-drin, neu achosion a amheuir o gam-drin? Sut ydych chi'n sicrhau eich hun bod pob un o'r staff a'r ymwelwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau eich ysgol / UCD ar gyfer hyn?

Mae staff yn derbyn hyfforddiant diogelu rheolaidd ac yn deall eu cyfrifoldeb i ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon. Caiff pryderon diogelu eu cofnodi ar CPOMS a'u cyfeirio'n ddi-oed at y DSP, sef y Pennaeth. Mae staff yn glir mai eu rôl yw codi a rhannu pryderon, tra bo'r DSP yn gwerthuso'r wybodaeth ac yn gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chanllawiau'r Awdurdod Lleol, gan geisio cyngor neu wneud atgyfeiriadau pan fo angen.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfarwydd â'r Polisi Diogelu a'r gweithdrefnau adrodd drwy drefniadau sefydlu, hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd. Caiff ymwelwyr wybodaeth berthnasol am ddiogelu wrth gyrraedd, gan gynnwys manylion y staff diogelu a'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am bryderon.

O ganlyniad, mae staff yn gweithredu'n hyderus ac yn gyson wrth ymateb i bryderon diogelu. Mae dysgwyr yn gwybod at bwy i droi am gymorth, ac mae pryderon yn cael eu nodi a'u gweithredu arnynt yn amserol ac yn briodol.

Tystiolaeth ategol yn cynnwys:

- Polisi Diogelu
- Cofnodion Hyfforddiant

Sut ydych chi'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau perthnasol yn cael eu diweddarau'n gyson?

Mae'r Pennaeth yn sicrhau bod trefniadau diogelu'r ysgol yn adlewyrchu canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru, Gweithdrefnau Diogelu Cymru a gofynion yr Awdurdod Lleol. Caiff polisiau allweddol, gan gynnwys y Polisi Diogelu, eu hadolygu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu, neu'n gynharach os bydd newidiadau i ganllawiau cenedlaethol neu leol, deddfwriaeth neu ofynion diogelu.

Caiff polisiau wedi'u diweddarau eu rhannu â staff a llywodraethwyr, a chaiff gweithdrefnau diogelu eu hatgyfnerthu drwy hyfforddiant, trefniadau sefydlu a diweddariadau rheolaidd i staff. Rhoddir copïau ar gyfer eu darllen a'u llofnodi yn yr ystafell athrawon. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfredol yn eu dealltwriaeth o weithdrefnau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnal gweithdrefnau recriwtio diogel cadarn, gan gynnwys cynnal gwiriadau DBS ar gyfer staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr, ac yn adolygu asesiadau risg a threfniadau diogelu yn ôl yr angen.

Tystiolaeth ategol yn cynnwys:

- Polisi Diogelu
- Adroddiadau tymhorol y Pennaeth i'r Corff Llywodraethu
- Cofnodion cyfarfodydd y Corff Llywodraethu

Beth yw eich gweithdrefnau ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel?

Mae'r ysgol yn sicrhau bod trefniadau recriwtio diogel cadarn ar waith i hyrwyddo diwylliant cryf o ddiogelu a sicrhau addasrwydd yr holl oedolion sy'n gweithio gyda dysgwyr. Cynhelir prosesau recriwtio staff a gwirfoddolwyr gyda chefnogaeth Adnoddau Dynol Cyngor Sir y Fflint ac yn unol â pholisïau recriwtio diogel a DBS yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol yn cwblhau ac yn gwirio'r holl wiriadau cyn cyflogaeth perthnasol, gan gynnwys geirdaon, gwirio hunaniaeth, cymwysterau, hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig a chliriad DBS, cyn i unrhyw unigolyn ddechrau yn ei rôl.

Mae pob aelod o staff, llywodraethwr a gwirfoddolwr sy'n gweithio gyda dysgwyr yn meddu ar gliriad DBS cyfredol a boddhaol. Caiff aelodau newydd o staff eu cyflwyno'n effeithiol i'w cyfrifoldebau diogelu drwy drefniadau sefydlu a hyfforddiant priodol, gan sicrhau dealltwriaeth glir o'u rôl wrth gadw dysgwyr yn ddiogel.

Mae'r ysgol yn defnyddio darparwyr cyflenwi cymeradwy yn unig, sy'n darparu sicrwydd bod yr holl wiriadau recriwtio a diogelu gofynnol wedi'u cwblhau.

O ganlyniad, mae arweinwyr yn gallu rhoi sicrwydd bod gweithdrefnau recriwtio diogel yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddiwylliant lle mae diogelwch a lles dysgwyr yn flaenoriaeth amlwg.

Tystiolaeth ategol yn cynnwys:

- Polisi Recriwtio Diogel yr Awdurdod Lleol
- Polisi DBS
- Rhestr Wirio DBS

Beth yw eich trefniadau i ddarparu hyfforddiant priodol i staff a llywodraethwyr ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant, gan gynnwys hyfforddiant Atal a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Mae modiwlau e-ddysgu ar gael i staff Cyngor Sir y Fflint drwy lwyfan Learning@Wales. Mae'n orfodol i bob aelod o staff gwblhau'r modiwlau Diogelu Grŵp A, Prevent, a Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

Darparwyd hyfforddiant Diogelu Grŵp B i'r staff perthnasol yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Dysgu a Datblygu Diogelu. Rhennir negeseuon allweddol o hyfforddiant drwy gyfarfodydd staff er mwyn sicrhau arferion cyson ar draws yr ysgol.

Mae'r DSP a'r Dirprwy DSP wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu Grŵp C.

Mae'r llywodraethwyr i gyd wedi derbyn hyfforddiant Grŵp A. Mae'r Cadeirydd wedi cwblhau Grŵp C.

Mae pob aelod newydd o staff yn cwblhau rhaglen sefydlu sy'n cynnwys gwybodaeth am weithdrefnau a pholisïau diogelu ac amddiffyn plant yr ysgol.

Caiff pob ymwelydd ac oedolyn arall sy'n gweithio neu'n ymweld â'r ysgol wybodaeth briodol am weithdrefnau diogelu wrth gyrraedd.

Mae posteri diogelu wedi'u harddangos ar draws yr ysgol i atgoffa staff ac ymwelwyr pwy i gysylltu â nhw os oes ganddynt bryder diogelu.

Tystiolaeth ategol yn cynnwys:

- Cofnodion hyfforddiant
- Polisi Diogelu

Beth yw eich gweithdrefnau ar gyfer rheoli ymddygiad heriol yn yr ysgol a phan fydd disgyblion i ffwrdd o'r safle, gan gynnwys ar gludiant ysgol?

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol drwy ethos clir sy'n seiliedig ar barch, caredigrwydd a chynhwysiant. Mae polisïau priodol ar gyfer ymddygiad a bwlio, ac mae staff yn gweithredu'r rhain yn gyson. Caiff unrhyw bryderon am ymddygiad eu cofnodi, eu monitro a'u trafod gyda rhieni neu ofalwyr pan fo angen. Mae'r ysgol yn gwrandao ar safbwyntiau dysgwyr ac yn hyrwyddo cyfleoedd iddynt gymryd cyfrifoldeb a chyfrannu at fywyd yr ysgol.

Pan fo dysgwyr angen cymorth ychwanegol i reoli eu hymddygiad neu eu hemosiynau, mae'r ysgol yn darparu cymorth pwrpasol sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Gall hyn gynnwys proffiliau un dudalen, cynlluniau cymorth ac asesiadau risg unigol. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau allanol, megis y gwasanaeth cymorth ymddygiad, gwasanaethau seicoleg addysg a CAMHS, er mwyn sicrhau'r gefnogaeth fwyaf priodol. Lle bo angen ymyrraeth gorfforol i atal niwed, mae staff yn dilyn polisi'r ysgol ac mae rhieni'n cael eu hysbysu.

Ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle, gan gynnwys ymweliadau addysgol a chludiant, mae'r ysgol yn dilyn gweithdrefnau'r awdurdod lleol ac yn cynnal asesiadau risg priodol. Rhoddir ystyriaeth i anghenion unigol dysgwyr wrth gynllunio ymweliadau, ac mae staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r ysgol yn defnyddio system EVOLVE ar gyfer trefnu a chymeradwyo ymweliadau perthnasol ac yn ceisio cyngor gan yr awdurdod lleol pan fo angen.

O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch tuag at eraill. Mae'r ysgol yn ymateb yn effeithiol i ymddygiad heriol ac yn darparu cymorth amserol i ddysgwyr sydd ei angen. Mae trefniadau clir ar waith i helpu i sicrhau diogelwch a llesiant dysgwyr yn yr ysgol ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar y safle.

Tystiolaeth ategol yn cynnwys:

- Polisi Ymddygiad
- Polisi Gwrth fwlio
- Polisi Ymyrraeth Gorfforol
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Rheoli Digwyddiadau Difrifol
- Cofnodion a dogfennaeth y Cydlynnydd Ymweliadau Addysgol (EVC) ar system EVOLVE
- Asesiadau risg unigol ar gyfer dysgwyr
- Proffiliau un dudalen dysgwyr
- CPOMS

Pa mor effeithiol yw eich trefniadau ar gyfer rheoli absenoldeb disgyblion, amserlenni rhan-amser a chynlluniau cymorth bugeiliol?

Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb yn ofalus ac yn gweithredu'n brydlon pan fo pryderon ynghylch absenoldeb neu brydlondeb. Mae staff yn cofnodi ac yn olrhain presenoldeb yn rheolaidd, gan ddefnyddio'r wybodaeth i nodi patrymau a dysgwyr a allai fod angen cymorth ychwanegol. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr a'r Swyddog Lles Addysg i gefnogi gwell presenoldeb ac i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i ddysgu.

Pan fo angen cymorth ychwanegol ar ddysgwr, mae'r ysgol yn rhoi ymyriadau priodol ar waith sy'n canolbwyntio ar les, ymgysylltiad a phresenoldeb. Gall hyn gynnwys cynlluniau cymorth presenoldeb, cyfarfodydd gyda rhieni a chydweithio ag asiantaethau allanol. Mae'r pennaeth yn adolygu gwybodaeth am bresenoldeb yn rheolaidd ac yn gwerthuso effaith y cymorth a ddarperir.

Lle bo amserlen ran-amser neu gynllun cymorth bugeiliol yn briodol, caiff ei chytuno gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol perthnasol. Mae gan y trefniadau hyn nodau clir ac fe'u hadolygir yn rheolaidd er mwyn cefnogi lles, presenoldeb a chynnydd y dysgwr. Mae'r ysgol yn monitro'r trefniadau'n ofalus ac yn gweithio tuag at helpu dysgwyr i ailintegreiddio'n llwyddiannus i addysg amser llawn lle bo hynny'n briodol.

O ganlyniad, mae'r ysgol yn adnabod dysgwyr sydd angen cymorth yn gynnar ac yn darparu cymorth amserol ac addas. Mae hyn yn helpu llawer o ddysgwyr i wella eu presenoldeb, eu hymgysylltiad â dysgu a'u lles cyffredinol.

Tystiolaeth ategol yn cynnwys:

- Polisi Presenoldeb
- Cofnodion presenoldeb ar SIMS
- Llythyrau at rieni a gofalwyr
- Adroddiadau'r Pennaeth i'r Corff Llywodraethu
- Cofnodion CPOMS
- Ffurflenni cais am wyliau a chofnod o geisiadau am wyliau

Sut ydych chi'n cofnodi honiadau o fwlio, ac yn delio â nhw?

Mae Ysgol Mornant yn hyrwyddo diwylliant o barch, caredigrwydd a chynhwysiant drwy ei chwricwlwm a'i darpariaeth ar gyfer llesiant. Caiff dysgwyr eu cefnogi i ddeall effaith bwlio, gwerthfawrogi amrywiaeth a meithrin perthnasoedd cadarnhaol.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n codi ymwybyddiaeth o fwlio ac yn annog dysgwyr i rannu unrhyw bryderon gydag oedolyn y maent yn ymddiried ynddo.

Mae gan yr ysgol Bolisi Gwrth-fwlio clir. Caiff pob honiad neu ddigwyddiad o fwlio ei gofnodi ar CPOMS, gan gynnwys y camau a gymerwyd a'r canlyniadau. Mae'r Pennaeth yn monitro cofnodion yn rheolaidd er mwyn nodi unrhyw batrymau neu bryderon sy'n dod i'r amlwg ac i sicrhau y cymerir camau priodol.

Pan fo digwyddiadau'n ymwneud ag ymddygiad gwahaniaethol, hiliol neu ragfarnllyd, caiff y rhain eu rheoli yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol ac fe'u cofnodir a'u hadrodd drwy borth Herio Bwlio y Sir.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda dysgwyr, rhieni a phartneriaid perthnasol i sicrhau bod pob unigolyn yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei barchu ac yn cael ei gynnwys ym mywyd yr ysgol.

Tystiolaeth ategol yn cynnwys:

- Polisi Gwrth fwlio
- Cofnodion CPOMS

Rhowch fanylion am sut mae'r ysgol / UCD yn sicrhau diogeledd safle'r ysgol.

Mae Ysgol Mornant yn darparu amgylchedd diogel a chadarn i ddysgwyr, staff ac ymwelwyr. Mae mynediad i'r safle yn cael ei reoli'n briodol yn ystod y dydd ysgol, gyda ffensys o amgylch y safle a gweithdrefnau clir ar gyfer ymwelwyr. Mae'n ofynnol i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd, gwisgo bathodyn adnabod a dilyn gweithdrefnau'r ysgol.

Cynhelir gwiriadau rheolaidd o adeiladau, tiroedd ac offer yr ysgol, ac ymdrinnir yn brydlon ag unrhyw faterion a nodir. Mae'r ysgol yn cwblhau gwiriadau iechyd a diogelwch statudol ac yn cynnal ymarferion tân a chloi i lawr yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod staff a dysgwyr yn gwybod sut i ymateb mewn argyfwng. Mae asesiad risg diogelwch safle yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Mae staff yn goruchwyllo'r safle ar adegau allweddol o'r dydd, ac mae trefniadau clir ar waith ar gyfer gadael a chasglu disgyblion yn ddiogel. Mae contractwyr ac ymwelwyr eraill yn derbyn gwybodaeth berthnasol am y safle cyn dechrau unrhyw waith.

O ganlyniad, mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn deall y drefn ar gyfer cadw eu hunain a phobl eraill yn ddiogel. Mae staff yn gweithredu'r gweithdrefnau'n gyson, ac mae'r ysgol yn ymateb yn brydlon i unrhyw faterion sy'n codi.

Tystiolaeth ategol yn cynnwys:

- Asesiad Risg y Safle
- Archwiliad Iechyd a Diogelwch
- Adroddiadau'r Pennaeth i'r Corff Llywodraethu
- Cofnodion cyfarfodydd y Corff Llywodraethu
- Cofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol perthnasol

Sut ydych chi'n sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion tra byddant ar y safle, ac i ffwrdd o'r safle?

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i iechyd, diogelwch a lles dysgwyr. Mae polisïau a gweithdrefnau clir mewn lle, ac mae'r safle'n cael ei wirio'n rheolaidd i sicrhau amgylchedd diogel i ddysgu a chwarae. Caiff unrhyw bryderon eu gweithredu arnynt yn brydlon.

Mae trefniadau priodol i gefnogi dysgwyr ag anghenion meddygol a gofal personol. Mae staff yn ymwybodol o anghenion unigol dysgwyr, ac mae aelodau o staff wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf. Mae damweiniau a digwyddiadau'n cael eu cofnodi, ac mae rhieni'n cael eu hysbysu pan fo hynny'n briodol.

Mae'r ysgol yn cynnal ymarferion tân a gweithdrefnau cloi i lawr yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod staff a dysgwyr yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae ysgol Mornant hefyd yn gweithio gydag asiantaethau allanol i hyrwyddo negeseuon pwysig am ddiogelwch a lles e.e. Heddlu.

Ar gyfer ymweliadau addysgol ac unrhyw weithgareddau oddi ar y safle, mae'r ysgol yn dilyn gweithdrefnau'r awdurdod lleol (Evolve). Caiff risgiau eu hystyried ymlaen llaw, sicrheir cymarebau staffio priodol a cheir caniatâd rhieni lle bo angen. Rhoddir ystyriaeth lawn i anghenion meddygol a diogelwch dysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ar safle'r ysgol ac oddi arno.

Tystiolaeth ategol yn cynnwys:

- Polisi Ymddygiad
- Polisi Gwrth fwlio
- Polisi Diogelu
- Polisi Iechyd a Lles
- Polisi Evolve
- Cofnodion CPOMS

Sut mae llywodraethwyr, pwyllgorau rheoli a byrddau goruchwyllo yn dwyn yr ysgol / UCD i gyfrif am ansawdd ac effeithiolrwydd ei gweithdrefnau diogelu?

Mae'r Corff Llywodraethu yn chwarae rhan weithredol wrth fonitro effeithiolrwydd trefniadau diogelu'r ysgol ac mae diogelu yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y llywodraethwyr. Mae Llywodraethwr Diogelu penodedig yn gweithio gyda'r Pennaeth i gael dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen sylw pellach.

Mae'r llywodraethwyr yn cymeradwyo'r Polisi Diogelu ac yn derbyn yr adroddiad diogelu blynyddol a'r hunanwerthusiad diogelu. Mae hyn yn eu galluogi i ddarparu lefel briodol o her a sicrwydd ynghylch ansawdd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu'r ysgol. Pan fo materion diogelu arwyddocaol yn codi, cânt eu rhannu'n briodol â'r Cadeirydd a'r Llywodraethwr Diogelu er mwyn sicrhau goruchwyliaeth briodol.

Tystiolaeth ategol yn cynnwys:

- Cofnodion cyfarfodydd y Corff Llywodraethu
- Adroddiad y Pennaeth
- Cofnodion hyfforddiant

Nodiadau ychwanegol wedi'u darparu gan yr ysgol / UCD

Fe fydd ytystiolaeth ategol iw gael yn yr ysgol i chi ei weld.

Unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:

Llofnod: *Gwawr Closs-Griffiths*

Enw: Gwawr Closs-Griffiths

Rôl: Pennaeth

Dyddiad: 9/10/26

Pennaeth / Athro sydd â Gofal

Llofnod: *Gwawr Closs-Griffiths*

Enw: Gwawr Closs-Griffiths

Dyddiad: 9/10/26

Cadeirydd y Llywodraethwyr / pwyllgor rheoli / bwrdd goruchwyllo

Llofnod: *David Hytch*

Enw: David Hytch

Dyddiad: 10/10/26